



Mynd ar Deithiau Ysbrydol

Ymchwil Ysbrydol Randolph a'i Chwiliad am Ystyr

Ymchwil Ysbrydol Randalph a'i
Chwiliad am Ystyr

Mynd ar Deithiau Ysbrydol

Tania ap Siôn

Darluniwyd gan Phillip Vernon



Bear Lands Publishing

Cyhoeddwyd gan Bear Lands Publishing
Canolfan y Santes Fair
Llys Onnen
Abergwyngregyn
Gwynedd
LL33 0LD
Cymru (UK)

Nodir Tania ap Siôn a Phillip Vernon fel awduron
y gwaith hwn.
Cyfieithwyd gan Nant Roberts.

©Hawlfraint y Goron 2019.

Cyhoeddwyd gyntaf 2019.

Noddir gan Lywodraeth Cymru.

CYNNWYS

Teithiau Randalph Ddoeth	7
1 Ar draws y Môr	8
2 Ar hyd y Ffordd	10
3 Bendithio Goleuni	14
4 Seintiau a Meudwyaid	18
5 Y Goleudy	22
6 Taith Fwslimaidd	26
7 Taith Hindŵaidd	30
Allwch chi helpu Randalph?	34
Randalph Ddoeth yn mynd yn ei ôl adref	36





Teithiau Randolph Ddoeth

Eisteddodd Randolph Ddoeth yn ei gadair, gan grafu ei ben llwyd henaidd, a meddwl am y cwestiwn mawr iawn.

“Beth sydd *wir* yn bwysig?” gofynnodd i’r ystafell wag mewn llais dwfn, trwm. Fel arfer, doedd dim lleisiau eraill i’w ateb.

Roedd y cwestiwn, ‘beth sydd *wir* yn bwysig’ wedi achosi i Randolph Ddoeth bendroni llawer. Roedd wedi treulio llawer o ddyddiau’n meddwl am y peth, ond roedd yn gwybod na fyddai’n dod o hyd i atebion drwy aros yn ei ystafell.

“Fe af i allan i’r byd!” dywedodd Randolph Ddoeth. “Fe fydda i’n dod o hyd i atebion yno ac yn dod â nhw’n ôl yma.”

Gwisgodd Randolph Ddoeth ei gôt a’i het, cododd ei fag, a gafael yn ei ffon. Yna, gan droi ei wyneb tuag at yr haul yn codi, fe gychwynnodd ar ei daith trwy Gymru.

Dyna’r ffordd y dechreuodd Randolph Ddoeth ei ymchwil ysbrydol a’i chwiliad am ystyr.

1 Ar draws y Môr



Roedd Randolph Ddoeth yn sefyll ar y pentir yn Uwchmynydd, yn edrych allan i'r môr. Tynnodd ei het i lawr yn dynn am ei ben i'w warchod rhag y gwynt aflonydd. Yno o'i flaen yr oedd yr ynys, yn codi o niwl y môr.

Y tu ôl iddo, sylwodd Randolph ar olion hen eglwys ganoloesol. Erbyn hyn, dim ond awgrym o amlinelliad oedd yn dal yno yn y glaswellt. Gan gymryd llyfr nodiadau o'i fag, brasluniodd Randolph rai arsylwadau. Faint o bererinion a safodd yma cyn cam olaf eu taith i'r ynys ar draws y môr?




Ymunodd Randolph â grŵp bach a oedd wedi ymgasglu ar y traeth creigiog ym Mhorth Meudwy. Roedden nhw'n gwyllo eu bagiau a'u cyflenwadau bwyd yn cael eu llwytho oddi ar drelar i gwch bach. Yna, fesul un, aeth y bobl i fyny'r ysgol a dringo i'r cwch. Wedi i bawb glymu ei siaced achub yn ddiogel, hwyliodd y cwch bach o loches y cildraeth i'r môr agored.

Cynyddodd y tonnau o ran maint a chryfder, a siglodd y cwch bach o ochr i ochr. Roedd rhai tonnau mawr yn gwlychu'r teithwyr, a oedd yn swatio gyda'i gilydd ar y meinciau. Tra'r oedd y cwch yn dal ei gwrs, edrychodd Randolph ar ei gyd-deithwyr. Gwelodd deulu gyda dau o blant yn eu harddegau, a grŵp o ffrindiau. Roedd yno hefyd gwpl ifanc, a dynes yn teithio ar ben ei hun.

Yn sydyn, fe ddaeth yr ynys i'r golwg. Roedd pawb yn dawel wrth i'r cwch ddod yn nes at Ynys Enlli – Ynys y Cerrynt.



2 Ar hyd y Ffordd



Dociodd y cwch yn yr harbwr bychan a dringodd y teithwyr i'r lan. Fe aethon nhw at y bythynnod, a fyddai'n gartrefi syml iddyn nhw am yr wythnos. Aeth Randolph i gyfeiriad arall am fod rhywbeth wedi dal ei sylw. Yno, yn dowcio yn y dŵr roedd pen a llygaid duon creadur yn ei wyllo. A oedd y creadur hwn yn ei ddilyrn wrth iddo gerdded ar hyd y llwybr?

Arweiniodd y llwybr Randolph at fae creigiog. Yno, yn gorwedd ar greigiau a oedd yn codi allan o'r dŵr, gwelodd forloi llwyd yn gorffwys. Eisteddodd Randolph ar graig a meddyliodd am y morloi a'u cri alarus.

Aeth Randolph yn ei flaen ar hyd y llwybr nes iddo ddod at gwt wedi'i wneud o garreg a phren. Roedd y cwt wedi'i godi ar ben clogwyn uchel yn wynebu'r môr. O'r fan hon, fe allai Randolph weld yr adar môr gwych yn hedfan ac yn troelli uwch ben y dŵr llwydlas.

Yna, arweiniodd y llwybr Randolph at draeth tywodlyd. Ym mhen draw'r traeth gwelodd gwt arall wedi'i wneud o bren. Roedd dyn yn mynd o'r cwt, ac roedd ganddo ysbienddrych. Ar y dechrau, roedd Randolph yn pendroni. Beth tybed oedd y dyn wedi bod yn edrych arno? Roedd yno lawer o symudiadau bach sydyn ymysg y cerrig ar lan y dŵr. Pan edrychodd Randolph yn fanylach, gwelodd adar bach yn bwydo'n brysur. Ychydig ymhellach draw, roedd pioden fôr yn sefyll yn llonydd ar graig yn llygad yr haul. Meddyliodd Randolph am y gwahanol adar, ac am y bobl a oedd yn eistedd mewn cytiau yn eu gwylio.





Mae sylw Randolph yn troi wedyn at symudiad arall gerllaw. Roedd dynes yn cerdded yn araf tuag ato ar hyd y llwybr glaswellt o'i flaen. Weithiau, fe fyddai'n oedi i syllu'n ofalus ar rywbeth. Aeth Randolph yn nes a'i gwyllo.

Fe arhosodd y ddynes y tro cyntaf wrth ymyl gwe pry copyn. Ar hyd edau gain y we, roedd dafnau o ddŵr yn pelydru'n ddisglair yn yr haul. Yr ail dro, fe arhosodd hi wrth ymyl blodyn pinc a chraig a oedd â chen melyn drosti. Roedd y blodyn a'r graig wrth geg twll tywyll, a oedd yn arwain yn ddwfn i'r ddaear. Y trydydd tro, fe arhosodd hi wrth ymyl corff aderyn marw a chragen wag bawd cranc.

Pan nodiodd y ddynes ei phen i gyfarch Randolph, aeth ati. "Beth sydd wir yn bwysig i chi yma?" gofynnodd Randolph iddi.

Pwyntiodd y ddynes at y mynydd y tu ôl iddi. “Mae’r ynys hon yn wynebu tuag at y môr,” dywedodd. “Mae cefn uchel y mynydd yn cysgodi rhag y tir mawr. Mae rhywbeth ar wahân a chuddiedig ynghylch yr ynys hon. Mae fel pe byddech chi mewn byd arall. Bob blwyddyn, fe fydda i’n teithio yma i ddianc rhag sŵn a chyflymdra fy mywyd bob dydd.”

Dywedodd y ddynes wedyn, “Mae’r lle hwn yn gwneud i mi arafu, ac rydw i’n dechrau sylwi ar bethau o’r cwmpas. Mae’r lle hwn yn fy addysgu i am yr hyn sydd wir yn bwysig mewn bywyd.”

Yna, rhoddodd y ddynes fraslun o flodyn a’r bawd cranc gwag i Randolph. “Dyma beth sydd wir yn bwysig i mi yma. Ewch â’r anrhegion hyn yn ôl gyda chi,” dywedodd gyda gwên. Wrth roi’r anrhegion yn ei fag, dywedodd Randolph ffarwel a mynd yn ei flaen â’i chwiliad.



3 Bendithio Goleuni



Clywodd Randalph gloch y capel yn canu a dechreuodd gerdded i'r cyfeiriad hwnnw. Torrodd ar draws caeau at lwybr mwldyd a oedd yn arwain at ddrws agored y capel.


Y tu mewn, y peth cyntaf y sylwodd Randalph arno oedd y goleuni disglair a'r cynhesrwydd a oedd yn treiddio o ganol y capel. Yno, roedd canhwyllau wedi eu goleuo'n disgleirio o amgylch croes fawr o froc môr a oedd yn gorwedd ar y llawr agored. Y tu ôl i'r goleuni clir hwn, roedd cysgod pulpud mawr yn codi'n uchel uwchben bwrdd allor pren plaen. Roedd llythrennau aur amlwg ar flaen y pulpud yn dal y golau ac yn nodi, '1875'.

Aeth Randalph ymhellach i mewn i ymuno â'r bobl a oedd wedi dod ynghyd o amgylch y groes froc môr fawr. Wrth fwrdd yr allor, eisteddai dau mewn gwisgoedd offeiriad, un bob ochr iddo. Roedd thuser yn hongian yn ymyl, yn rhyddhau plu tenau o aroglarth a mwg. Sylwodd Randalph nad oedd y canhwyllau ar y bwrdd allor wedi'u goleuo eto.

“Goleuni a heddwch yn Iesu Grist ein Harglwydd,”
dywedodd un o'r rhai a oedd mewn gwisg offeiriad.
Yn fuan wedyn, roedd yn cerdded ac yn chwifio'r
thuser, o gwmpas y groes ac o gwmpas yr allor.
Roedd cymylau trwchus o aroglarth yn byrlymu allan
o'r thuser ac yn llenwi'r aer. Wrth i'r emyn hynafol
Phos Hilaron ddechrau cael ei chanu, cymerwyd
fflam o gannwyll yn ymyl y groes froc môr i oleuo
canhwylau'r allor. Roedd y bobl yn canu,

“O rasol oleuni
llewyrch pur y Tad bythfywiol yn y nefoedd:
O sanctaidd a bendigaidd Iesu Grist!
Yn awr, a ninnau'n nesáu at fachlud haul:
a'n llygaid yn gweld goleuni'r hwyr
Canwn dy fawl, O Dduw:
Tad, Mab ac Ysbryd Glân.”

Gwylodd Randolph wrth i bawb ddiolch am fendith
goleuni a phlygu eu pen mewn gweddi.





Ar ddiwedd y gwasanaeth, arhosodd y bobl yn dawel ac eistedd yn llonydd yng ngoleuadau disglair y canhwyllau. Erbyn hyn, roedd hi'n dywyll y tu allan.

Symudodd Randalph tuag at lyfr agored oedd gerllaw. "Llyfr Ymwelwyr," sibrydodd wrtho'i hun. Wrth droi'r tudalennau, darllenodd yr hyn yr oedd pobl wedi'i ysgrifennu am y lle hwn a'r ynys hon. Roedd y geiriau'n nodi llawer o bethau, gan sôn am heddwch, sancteiddrwydd, am nefoedd ac am fendith.

Pan safodd rhai pobl i fynd o'r capel, aeth Randalph atyn nhw. "Beth sydd wir yn bwysig i chi yma?" gofynnodd Randalph iddyn nhw.

Dyweddod un o'r bobl, "Rydw i ar bererindod gyda ffrindiau. Rydyn ni wedi cerdded bron i 140 milltir ar hyd Llwybr Pererinion Gogledd Cymru. Yr ynys hon yw ein harhosiad olaf a'n cyrchfan. Edrychwch, rydw i wedi cael y stamp olaf ar fy mhasbort pererin."

Dyweddod rhywun arall, "Rydw i'n ysgrifennu barddoniaeth, ac mae math arbennig o ysbrydoliaeth i'w chael yma." Dywedod rhywun arall, "Rydw i'n chwilio am rywbeth. Yn y gwasanaeth Bendithio Goleuni yma, doedd dim rhaid i mi wneud unrhyw beth. Dim ond bod yma a derbyn y fendith a roddwyd. Mae hynny'n wir."

Yna, fe wnaethon nhw roi pasbort pererin i Randolph, cerdd, a chroes froc môr fach. "Dyma beth sydd wir yn bwysig i ni yma. Ewch â'r anrhegion hyn yn ôl gyda chi," dywedod y bobl gyda gwên. Wrth roi'r anrhegion yn ei fag, dywedod Randolph ffarwel a mynd yn ei flaen â'i chwiliad.



4 Seintiau a Meudwyaid



Ymhellach ymlaen ar hyd y llwybr, daeth Randolph at adfeilion adeilad hen iawn. Roedd y to wedi hen ddiffannu ac roedd y waliau wedi cael eu curo dros y blynyddoedd. Roedd gweddill cerrig yr adeilad yn dal i sefyll yno ond wedi eu malurio yng ngwynt garw'r ynys. Erbyn hyn, roedd y ffenestri a'r drysau ar agor i unrhyw un neu unrhyw beth a fyddai'n mynd heibio. Meddylodd Randolph am y lle hwn a oedd wedi'i adael, ac am y bobl a fyddai wedi bod yma flynnyddoedd lawer yn ôl.

Yn ymyl y drws, roedd dynes yn edrych ar y cerrig hynafol. Roedd hi'n cario llyfr bach a dechreuodd edrych ar rywbeth ynddo. Aeth Randolph yn nes ati, gan geisio gweld beth oedd hi'n ei ddarllen. Gallai weld darlun o'r adfeilion a'r geiriau, "Abatyr Santes Fair."

Daliodd Randolph ati i ddarllen stori'r Abaty. Adeiladwyd yr Abaty yn y 13eg ganrif i fynachod yr Urdd Awstinaidd. Roedd yr ynys yn lle da iddyn nhw am ei fod ymhell i ffwrdd oddi wrth ddryswch y byd. Yma, fe allen nhw neilltuo eu hunain i Dduw mewn heddwch. Roedd eisoes yn hysbys fod yr ynys yn lle sanctaidd. Am bron i fil o flynyddoedd cyn i'r Abaty gael ei adeiladu, roedd seintiau a meudwyaid yn dod yma. Roedd Sant Cadfan a Sant Dyfrig ymhlith y seintiau hyn. Mae sôn bod 20,000 o seintiau wedi'u claddu ar yr ynys hon.

Edrychodd y ddynes a Randolph i gyfeiriad y fynwent a gweld y beddau a'r croesau Celtaidd yno. "Mae'r ynys hon yn lle o farwolaeth a bywyd," nododd testun y llyfr, "Yma mae'r addewid o fywyd newydd, o atgyfodiad."






Aeth y ddynes yn ei hôl at y llwybr a cherddodd i lawr tuag at iard Llofft Carreg Fawr. Diflannodd i mewn i ystafell o'r enw Betws, ac aeth Randolph i mewn ar ei hôl.

Arhosodd y ddynes yma am beth amser, yn eistedd yn dawel. Dechreuodd Randolph edrych o'i gwmpas. Gwelodd fod yr ystafell fach hon yn lle i fyfyrïo a gweddïo i unrhyw un a oedd am ddod yma. Beth amser yn ôl bu lleian feudwy yn byw ar yr ynys hon am lawer o flynyddoedd, ac roedd yr ystafell hon yn fan arbennig iddi hi weddïo.

Wedi i'r ddynes orffen gweddïo, aeth Randolph ati. "Beth sydd wir yn bwysig i chi yma?" gofynnodd Randolph iddi.

Trodd y ddynes at Randolph a dywedodd, “Rydw i wedi dod i'r ystafell fach hon i gael lloches i weddio. Y tu allan, gall yr ynys fod yn lle gwyllt a llym. Rydw i'n teimlo bod llonyddwch a heddwch yn y lle hwn. Mae yma amddiffyniad. Efallai bod hynny oherwydd yr holl weddïau sydd wedi'u gweddïo yma. Rydw i'n credu bod yr ynys gyfan wedi'i llenwi ag ysbryd a gweddïau'r seintiau a'r meudwyaid sydd wedi byw a marw yma. Mae'n lle sanctaidd iawn. Ond, nid yw'n lle hawdd.”

Yna, rhoddodd y wraig gerdyn i Randolph gyda 'Bendith Enlli' arno. “Dyma beth sydd wir yn bwysig i mi yma. Ewch â'r anrheg hon yn ôl gyda chi,” dywedodd gyda gwên. Wrth roi'r anrheg yn ei fag, dywedodd Randolph ffarwel a mynd yn ei flaen â'i chwiliad.



5 Y Goleudy



Arweiniodd y llwybr Randolph yn ôl i ochr arall yr ynys, ac fe arhosodd wrth y creigiau yn ymyl y Goleudy. Sylwodd ar ddydd a'i ferch yn eistedd ymysg y creigiau yn union islaw iddo. Gallai Randolph weld bod y creigiau'n arbennig o dywyll yn y fan hon. Roedden nhw hefyd yn ymddangos yn finiog ac onglog. Roedd y tad a'r ferch yn sylwi'n ofalus ar y creigiau ac yn siarad.


Wrth i Randolph wrando, clywodd sut roedd y creigiau hyn wedi ffurfio filiynau o flynyddoedd yn ôl. Clywodd am berygl creigiau sydd ynghudd o dan y môr. Yna, clywodd am hen gân werin o'r enw 'Galarnad Cwch Enlli'. Roedd y tad yn adrodd rhannau o'r alarnad,

“Y dydd olaf o fis Tachwedd,
Oer ei wedd gan arw wynt,
Un mil wyth gant a dwy ar hugain,
Y bu sain wrth'nebus hynt.”

Roedd yr alarnad yn mynd yn ei blaen i sôn am noson arswydus a storm ddychrynlyd. Yn cael ei daflu ar y tonnau ac yn y gwynt, roedd y cwch yn hwylio o Borth Meudwy i Ynys Enlli. Roedd ugain o bobl ar ei fwrdd.

“Dacw'r Cwch bron iawn yn noddfa
Diogelfa, cuddfa'r Cafn;
Dacw angau yn agoryd
Ei gas, enbyd, wancus safn;
Ef ar dir a môr sy Gadben
Hen – i ben y myn ei bwnc;
Iddo ef mae pawb yn gydradd,
Baidd eu lladd – y bedd a'u llwnc.”

Edrychodd Randolph ar y môr a meddwl am y beddau dyfrllyd.





Cododd y tad a'r ferch oddi ar eu seddi creigiog a mynd i gyfeiriad y Goleudy. Roedd y Goleudy'n sefyll yn uchel ac yn aruthrol o'u blaen. Fe welon nhw'r golau awtomatig a'r corn niwl. Roedden nhw'n dychmygu'r rhybudd a'r amddiffyniad roedd y Goleudy'n ei gynnig i bob morwr ar y môr.


Pan welodd y tad a'r ferch Randolph, a chodi eu llaw arno, fe aeth Randolph atyn nhw. "Beth sydd yn wir bwysig i chi yma?" gofynnodd Randolph iddyn nhw.

Pwyntiodd y ferch tuag at nifer o dai oedd yma ac acw, a chodi ei hysgwyddau. Dywedodd, “Ers talwm, roedd cymuned gyfan yn byw yma. Roedd ysgol yma hyd yn oed. Mae'n rhaid bod bywyd wedi bod yn galed. Rydw i'n cymryd cymaint o bethau'n ganiataol.”

Yna, rhoddodd ei thad ateb, “Mae'r creigiau hyn yn hen iawn. Roedden nhw yma cyn i unrhyw fod dynol allu cerdded drostyn nhw. Mae ein bywydau byr ni yn bitw o'u cymharu â'r creigiau hyn. Fe fyddan nhw'n dal yma pan fyddwn ni wedi mynd.”

Yna, fe wnaethon nhw roi llun i Randolph o dai'r ynys, a darn bach o graig dywyll. “Dyma beth sydd wir yn bwysig i ni yma. Ewch â'r anrhegion hyn yn ôl gyda chi,” dywedodd y ddau gyda gwên. Wrth roi'r anrhegion yn ei fag, dywedodd Randolph ffarwel.

Crychodd Randolph ei dalcen a meddwl. Fe allai weld bod mynd ar deithiau ysbrydol yn wir bwysig. Roedd yn gwybod bod hyn yn rhan o'i ymchwil ysbrydol a'i chwiliad am ystyr. “Ond beth mae pobl eraill mewn lleoedd gwahanol yn ei ddweud am hyn?” gofynnodd Randolph.



6 Taith Fwslimaidd




Teithiodd Randolph i'r gogledd ac yna i'r de, i'r dwyrain ac yna i'r gorllewin. Arweiniodd ei chwiliad ef heibio mynyddoedd a dyffrynnoedd, trwy ddinasoedd a threfi, o amgylch arfordiroedd a llynnoedd. Yna, ar stryd mewn dinas, fe arhosodd. Roedd teulu'n ymgasglu wrth ddrws ffrynt tŷ, yn disgwyl i rywbeth ddigwydd. Foment yn ddiweddarach, fe ddaeth car a pharcio yn ymyl y tŷ, ac fe ddaeth dyn a dynes allan. Roedd pawb, yr ifanc a'r hen yn gwenu'n llawen wrth iddyn nhw groesawu'r cwpl adref. "Rydych chi nawr yn Hajjis!" dywedodd un bachgen yn llawn cyffro.


Wrth i Randolph gerdded tuag at y teulu, meddyliodd, "Tybed beth fyddai Mwslim yn gallu ei ddweud wrthyf am fynd ar deithiau ysbrydol?" Roedd y teulu'n falch bod y cwpl wedi cyrraedd yn ôl, ac fe wnaethon nhw wahodd Randolph i'r tŷ.

Yn y tŷ, soniodd y cwpl am le ymhell i ffwrdd o'r enw Makkah, a sôn am bererindod o'r enw Hajj. Soniodd y ddau am y daith hir, awyr sych a phoeth yr anialwch, ac am y tyrfaoedd mawr o bobl. Doedd ganddyn nhw ddim ffotograffau i'w dangos, "Roedden ni'n canolbwyntio ar y bererindod yn unig," dywedodd y ddau. Felly, fe wrandawodd pawb yn astud a chreu lluniau yn eu pen.

Yna, agorodd y cwpl fag wedi'i lenwi ag anrhegion i aelodau eu teulu. Fe wnaethon nhw rannu poteli o ddŵr cysegredig o Ffynnon Zamzam, gleiniau tasbih pren, a matiau gweddi. Meddyliodd Randolph am y straeon a'r anrhegion y daeth y ddau â nhw o'r lle arbennig hwn.

Wrth i bawb archwilio anrhegion ei gilydd, gwyrdd Randolph ymlaen a gofyn i'r cwpl, "Beth fyddai'n bosib i Fwslim ei ddweud am fynd ar deithiau ysbrydol?"





Y ddynes wnaeth ateb Randolph gyntaf. “Wna i byth anghofio sut roeddwn i’n teimlo pan welais i’r Ka’bah yn Makkah am y tro cyntaf,” dywedodd. “I mi, fel Mwslim, dyma’r lle mwyaf cysegredig. Roedd cymaint o bobl yn cerdded o’i gwmpas, yn union fel y mae Mwslimiaid wedi gwneud ers canrifoedd lawer ar yr adeg hon o’r flwyddyn. Roedden ni i gyd wedi gwisgo yr un fath, ond roedden ni i gyd yn wahanol. Roedden ni wedi dod i Makkah o wahanol wledydd, gyda gwahanol ieithoedd, gwahanol ddiwylliannau, ac o wahanol gefndiroedd, ond roedden ni yno fel un o flaen Duw. Roeddwn i mor syfrdan, fe wnes i grio.”

Roedd y dyn yn feddylgar. “I mi, fe ddigwyddodd rhan bwysicaf a rhan fwyaf gwefreiddiol y bererindod ar yr ail ddiwrnod,” dywedodd. “Roeddwn i’n sefyll gyda miliynau o Fwslimiaid eraill ar wastadedd anialwch Arafat, yn gofyn i Dduw faddau fy mhechodau.”

“Felly, fe welwch chi,” dywedodd y dyn wedyn, “mae teithiau ysbrydol yn bwysig i ni fel Mwslimiaid hefyd. Rydyn ni’n ceisio mynd ar bererindod i Makkah unwaith yn ein hoes. Yn y Qur’an, mae Duw’n gofyn i ni wneud hyn, a dyma bumed Piler ein ffydd. Pan fyddwn ni’n ufudd i ewyllys Duw, rydyn ni’n derbyn pob math o fendithion. Mae’r bererindod hon wedi ein newid ni. Rydyn ni’n wahanol ar ôl dod yn ôl.”

Yna, rhoddodd y cwpl botel o ddŵr cysegredig o Ffynnon Zamzam, a gleiniau tasbih pren i Randalph. “Ewch â’r rhain yn ôl gyda chi,” dywedodd y ddau gyda gwên. Wrth roi’r anrhegion yn ei fag, dywedodd Randalph ffarwel a mynd ymlaen ar ei daith.



7 Taith Hindwâidd



Teithiodd Randolph ymlaen ac ymlaen, gan wynebu'r haul a'r glaw, yna'r stormydd a'r eira. Wnaeth Randolph ddim aros nes iddo gyrraedd man gwyrdd tawel mewn parc. Yno, fe arhosodd i edrych ar goed a blodau a oedd wedi'u plannu'n ofalus. O dan gysgod coeden dderw fawr, clywodd Randolph ddau lais yn sgwrsio'n ddyfal.


Yn eistedd ar fainc gerllaw roedd dyn yn siarad â'i wŷr am daith y bu arni lawer o flynyddoedd ynghynt. Roedd y daith hon wedi mynd ag ef i ddinas arbennig ac at yr afon fwyaf cysegredig i Hindwâiaid. Efallai, ryw ddydd, y byddai ei wŷr yn mynd i'r lle hwn hefyd.


Wrth i Randolph gerdded tuag at y dyn a'r bachgen, dywedodd wrtho'i hun, "Tybed beth fyddai Hindwâ yn gallu ei ddweud wrthyf am fynd ar deithiau ysbrydol?"

Gwrandawodd Randolph ar y dyn yn disgrifio ei bererindod i ddinas Varanasi yn India. Roedd y dyn yn cofio bod y ddinas yn llawn bywyd, gyda'i lliwiau llachar, ei seiniau a'i harogleuon nodedig. Roedd temlau yno ym mhobman ar gyfer gwahanol dduwiau a duwiesau Hindŵaidd. O gwmpas, roedd seiniau clychau a defodau. Ond y peth mwyaf trawiadol oedd sut roedd y ddinas gyfan yn canolbwyntio ar yr afon Ganga fawr.

Yna, eglurodd y dyn sut y daeth yr afon i'r lle hwnnw. Roedd y duw, Arglwydd Shiva, wedi achub y ddaear trwy ddal yr afon, a oedd yn syrthio, gyda'i wallt. Fe wnaeth hyn i'r afon lifo'n ddiogel ar y ddaear. "Nawr, mae'r afon yn rhoi bywyd mewn cymaint o wahanol ffyrdd," dywedodd.

Pan oedodd y dyn i feddwl am fwy o atgofion, gwyrdd Randolph a gofyn y cwestiwn, "Beth fyddai'n bosib i Hindŵ ei ddweud am fynd ar deithiau ysbrydol?"





Meddyliodd y dyn yn ofalus am y cwestiwn. “Yn Varanasi,” dywedodd, “rydw i’n cofio deffro’n gynnar un bore. Roedd yn dal yn dywyll pan wnes i fynd ar hyd y strydoedd at lannau’r afon Ganga. Roedd y grisiau neu’r ‘ghats’ sy’n arwain i lawr at yr afon eisoes yn dechrau prysuro. Roedd dynion sanctaidd yno’n myfyrio, gyda’u ffyn a bowlenni elusen yn eu hymyl. Roedd seremonïau puja’r bore’n cael eu cynnal. Roedd y coelcerthi angladdol yn llosgi. Roedd y rhain yn olygfeydd pwerus. Ond, i mi, gweld y pererinion yn cerdded ac yn rhedeg i’r afon sanctaidd oedd yr olygfa fwyaf pwerus o’r cyfan.”

Nodiodd y dyn ac edrych ar ei wŷr a Randolph, gan ddweud, “Ac, roeddwn i’n un o’r pererinion hynny. Fel llawer o rai eraill, fe wnes i ymolchi yn y dŵr cysegredig hwn er mwyn gallu dod yn lân yn ysbrydol.”

“Felly, fe welwch chi,” dywedodd y dyn wedyn, “mae teithiau ysbrydol yn bwysig i mi fel Hindŵ hefyd. Mae rhai lleoedd yn fannau sanctaidd iawn, ac mae pobl yn dod yno am wahanol resymau. Mae pererindod i Varanasi yn ymwneud â chael eich golchi'n lân o'r hyn sy'n eich dal yn ôl yn ysbrydol. Mae bywyd a marwolaeth yn eistedd ochr yn ochr ar lannau'r afon yn Varanasi. Pan fydda i'n marw, rydw i'n gobeithio y bydd fy nheulu yn gallu gollwng fy llwch i'r afon Ganga.”

Yna, rhoddodd y dyn gerflun bach o'r Arglwydd Shiva a rhywfaint o ddŵr o'r afon Ganga i Randalph. “Ewch â'r rhain yn ôl gyda chi,” dywedodd gyda gwên. Wrth roi'r anrhegion yn ei fag, dywedodd Randalph ffarwel a mynd ymlaen ar ei daith.



Allwch chi helpu Randolph?

Cafodd Randolph Ddoeth lawer o roddion ar ei deithiau. Mae hefyd wedi nodi llawer o bethau yn ei lyfr nodiadau. Ond nid yw'r ymchwil wedi dod i ben eto. Mae lle yn ei fag o hyd i fwy o bethau er mwyn ei helpu i fyfrio ynghylch 'mynd ar deithiau ysbrydol' fel rhywbeth sydd wir yn bwysig.

Mae Randolph angen eich help chi.

Pa leoedd eraill y gallai Randolph ymweld â nhw er mwyn cael gwybod am fynd ar deithiau ysbrydol?

Pwy y gallai eu holi yn y manau hynny?

Ydych chi'n meddwl bod mynd ar deithiau ysbrydol yn rhywbeth sydd wir yn bwysig?

I ble byddech chi'n mynd ar daith ysbrydol?

Pa rodd fydddech chi'n ei rhoi i Randolph fynd yn ôl gydag ef?



Randolph Ddoeth yn mynd yn ei ôl adref

Wrth i'r haul fachlud, aeth Randolph Ddoeth flinedig yn ei ôl i'w ystafell, lle y dadbaciodd ei fag yn ofalus. Fesul un, fe osododd o'i flaen yr *holl* bethau hynny yr oedd wedi'u casglu ar ei daith trwy Gymru.

Yna, eisteddodd Randolph Ddoeth ar ei gadair, gan grafu ei ben llwyd henaidd, a meddwl am y cwestiwn mawr iawn.

“Beth sydd *wir* yn bwysig?” gofynnodd eto mewn llais dwfn, trwm. Y tro hwn, fe gafodd ateb gan yr *holl* bethau yr oedd wedi'u casglu ar ei daith.

Gwrandawodd Randolph Ddoeth yn ofalus a gwenodd.

“Dyma ran hanfodol o fy ymchwil ysbrydol a fy chwiliad am ystyr!” dywedodd. “Mae teithiau arbennig i fannau i ffwrdd o'r cartref yn bwysig i bobl. Maen nhw'n newid pobl mewn sawl ffordd. Mae mynd ar deithiau ysbrydol yn rhywbeth sydd *wir* yn bwysig.”





Roll of parchment or scroll

ZAMZAM

Cerdd
Llythyr neu
Llythyr neu
Llythyr neu
Llythyr neu
Llythyr neu

Bendith Enlli



Pasport
Fy arnhegi Randolph


Dār Ganga


Darllen rhagor ...

Ymunwch â Randalph Ddoeth ar rai o'i deithiau eraill o amgylch Cymru.

Cyhoeddir pob llyfr stori yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae copïau mynediad agored ar gael ar wefan 'Hwb' Llywodraeth Cymru (hwb.gov.wales) ac ar Wefan Canolfan y Santes Fair (st-marys-centre.org.uk). Darperir canllawiau i athrawon, ffilmiau a cherddoriaeth hefyd.







Mae Randalph Ddoeth yn chwilio am atebion i'r cwestiwn mawr iawn. Mae eisiau gwybod, 'Beth sydd *wir* yn bwysig?' Mae'r cwestiwn hwn yn mynd â Randalph ar siwrnai drwy Gymru. Ar ei deithiau, mae'n dod o hyd i rai lleoedd a phobl arbennig i'w helpu gyda'i ymchwil.

Yn y stori hon, mae Randalph yn canfod ynys agored i'r gwynt oddi ar arfordir Gogledd Cymru. Yma, mae'n dysgu bod *Mynd ar Deithiau Ysbrydol* yn rhywbeth sydd *wir* yn bwysig. Mae ymweliad â chartref Mwslimaidd, ac â pharc lle mae Hindŵ yn siarad â'i wŷr, yn gwneud iddo feddwl hyd yn oed yn ddyfnach am yr hyn y gall *Mynd ar Deithiau Ysbrydol* ei olygu.

Ydych chi'n barod i ymuno â Randalph yn ei ymchwil ysbrydol a'i chwiliad am ystyr? Efallai y gallwch chi helpu Randalph gyda'r cwestiwn mawr iawn hefyd. Beth sydd *wir* yn bwysig?

